BIS | Department for Business Innovation & Skills

BANCIO YN SWYDDFA'R POST

Ymgynghoriad ar ddatblygu'r gwasanaethau ariannol a bancio sydd ar gael yn Swyddfa'r Post

RHAGFYR 2009

Cyhoeddwyd:	2 Rhagfyr 2009
Ymateb erbyn:	24 Chwefror 2010
Ymholiadau at:	Ymgynghoriad Bancio yn Swyddfa'r Post Gweithrediaeth Cyfranddalwyr Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau 1 Stryd Victoria Llundain SW1H 0ET Ffôn: 020 7215 5000 Ffacs: 020 7215 5336 Ebost: postofficebanking@bis.gsi.gov.uk

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i holl ddefnyddwyr Swyddfa'r Post; y rhai sy'n gweithio dros neu ar ran Swyddfa'r Post; a budd-ddeiliaid â diddordeb yn Swyddfa'r Post, gwasanaethau ariannol a bancio neu gynhwysiad ariannol.

Bancio yn Swyddfa'r Post

Ymgynghoriad ar ddatblygu'r gwasanaethau ariannol a bancio sydd ar gael yn Swyddfa'r Post

Mae Swyddfa'r Post eisoes yn cynnig ystod eang o wasanaethau ariannol. Cred y Llywodraeth ei bod yn bryd ehangu'r hyn y mae Swyddfa'r Post yn ei gynnig. Mae tri phrif reswm dros hyn:

- Mae'r cythrwfl diweddar yn y marchnadoedd ariannol wedi arwain nifer i alw am ddarparwr mwy lleol o wasanaethau ariannol – un y mae ganddynt hyder ynddo ac sydd â changen yn agos i'w cartref.
- Mae gan Swyddfa'r Post bresenoldeb lleol parhaus ar adeg pan fo rhai darparwyr eraill yn lleihau eu cysylltiad wyneb yn wyneb gyda chwsmeriaid, felly mae mewn lle perffaith i gynnig gwasanaethau ariannol hanfodol i bawb, gan gynnwys y rhai sydd eisoes, neu sydd mewn perygl o fod, wedi'u heithrio'n ariannol.
- Wrth i ffynonellau refeniw traddodiadol Swyddfa'r Post ddirywio, mae cyfle i wasanaethau ariannol fod yn ardal o dwf gwirioneddol ar gyfer Swyddfa'r Post, gan helpu i gynnal y rhwydwaith.

Am y rhesymau hyn, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 29 Medi 2009: "Rwyf am i Swyddfa'r Post chwarae rhan llawer mwy, gan ddod â gwasanaethau bancio yn ôl at galon cymunedau".

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gosod gweledigaeth y Llywodraeth ynglŷn â bancio yn Swyddfa'r Post, ac yn gofyn am farn ar y weledigaeth hon a'r cynnyrch a gwasanaethau ariannol eraill y medrai Swyddfa'r Post eu cynnig.

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	5
Sut i ymateb	7
Rhan 1: Cyflwyniad	9
Rhan 2: Ymrwymiad y Llywodraeth at Swyddfa'r Post	11
Rhan 3: Gwasanaethau ariannol cyfredol Swyddfa'r Post	13
Rhan 4: Banciau Post ledled y byd	18
Rhan 5: Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer bancio yn Swyddfa'r Post	20
Rhan 6: Ehangu gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post	22
Rhan 7: Beth nesaf?	26
Atodiad A: Rhestr o gynnyrch a gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post	27
Atodiad B: Rhestr o gwestiynau ymgynghoriad	33
Atodiad C: Ffurflen ymateb ymgynghoriad	34
Atodiad D: Rhestr o fudiadau sy'n derbyn yr ymgynghoriad hwn	37
Atodiad E: Cod Ymarfer Ymgynghoriad	40

Rhagair

Mae Swyddfa'r Post yn sefydliad Prydeinig sydd wedi bod yn rhan o'n gwead economaidd a chymdeithasol ers dros dri chan mlynedd.

Mae'n lleol, yn gyfeillgar, ac mae pobl yn ymddiried ynddi. Mae wrth galon cymunedau ar hyd a lled y wlad. Dyna'n rheswm dros gredu bod ganddi swyddogaeth bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod gan bawb fynediad at wasanaeth bancio dibynadwy, o safon uchel.

Ar adeg pan fo rhai banciau a chwmnïau gwasanaethau ariannol yn ceisio lleihau'r cysylltiad wyneb yn wyneb â'u cwsmeriaid, mae Swyddfa'r Post yn tynnu sylw. Mae'n cynnig brand sydd ag ymddiriedaeth ynddo, ac mae ganddi fwy o ganghennau na banciau'r stryd fawr gyda'i gilydd. Mae mewn lle delfrydol i ddod â gwasanaethau bancio yn ôl at galon cymunedau pobl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gosod ein gweledigaeth ar gyfer Bancio yn Swyddfa'r Post. Mae hyn yn adeiladu ar gwmpas cenedlaethol a phresenoldeb lleol Swyddfa'r Post i gynnig cynnyrch a gwasanaethau ariannol ar sail pedwar o werthoedd: Cyffredinol, Hygyrch, Dibynadwy a Chynaliadwy.

Credwn fod Swyddfa'r Post i bawb, gan gynnwys y rhai sydd o bosib yn cael anhawster cyrraedd at gynnyrch neu sefydliadau bancio eraill. Mae'r ddogfen hon yn gosod cyfres o argymhellion ar gyfer gwasanaethau newydd y medrai Swyddfa'r Post eu cynnig. Rydym am i'r ymgynghoriad hwn ein helpu i benderfynu ai'r argymhellion hyn yw'r rhai cywir, ac a oes rhai eraill y dylid eu hystyried.

Rydym am i Swyddfa'r Post fod yn gryf, cadarn a chynaliadwy yn y dyfodol, gan adeiladu ar y sylfeini sy'n ei gosod mor agos at ein calonnau heddiw.



Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Mandelson
Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Crynodeb Gweithredol

Swyddfa'r Post yw un o'r sefydliadau sydd â mwyaf o ymddiriedaeth ynddi yn y wlad. Mae ganddi rwydwaith o dros 11,500 o ganghennau, yn cynnig mynediad uniongyrchol at wasanaethau hanfodol. Prif nod polisi'r Llywodraeth ar gyfer Swyddfa'r Post yw cynnal rhwydwaith ddiogel, gynaliadwy a fforddiadwy.

Serch hynny, yn ddiweddar mae ei ffrydiau refeniw traddodiadol wedi dirywio wrth i fwy a mwy o bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd i gyrraedd at wasanaethau. Yr eithriad i hyn yw gwasanaethau ariannol, lle mae Swyddfa'r Post bellach yn un o'r darparwyr sy'n tyfu gyflymaf. Cred y Llywodraeth mai dyma'r amser iawn i ehangu ystod cynnyrch a gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post – gan adeiladu ar ddyhead pobl am fanc lleol y maent yn ymddiried ynddo; i sicrhau bod gwasanaethau ariannol hanfodol wrth galon cymunedau; ac i ddatblygu ffrwd refeniw bwysig ar gyfer Swyddfa'r Post.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y bwriad hwn ar 29 Medi 2009 pan ddywedodd ei fod am weld "Swyddfa'r Post yn chwarae rhan llawer mwy, yn dod â gwasanaethau bancio yn ôl at galon cymunedau". Felly lansiodd y Llywodraeth yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn i osod ei gweledigaeth ar gyfer bancio yn Swyddfa'r Post, a'r math o gynnyrch a gwasanaethau yr hoffem iddi eu darparu.

Bydd unrhyw gynnyrch newydd yn adeiladu ar yr ystod eang cyfredol o wasanaethau ariannol yn Swyddfa'r Post. Mae gan nifer o wledydd Fanc Post. Ond ffaith sy'n aml yn cael ei hanghofio yw bod Swyddfa'r Post yn cynnig ystod eang o wasanaethau benthyg (gan gynnwys morgeisi), cynilo, yswiriant, cyfnewid arian tramor a gwasanaethau ariannol eraill – yn union fel Banciau Post mewn gwledydd eraill. Mae Swyddfa'r Post yn nodedig am gyrhaeddiad ac ystod ei gwasanaethau ariannol – yn darparu gwasanaethau hanfodol nad yw nifer o sefydliadau eraill yn eu gwneud.

Mae'r Llywodraeth wedi gosod gwerthoedd a ddylai fod yn sylfaen i unrhyw wasanaethau ariannol a ddarperir gan Swyddfa'r Post. Y gwerthoedd hynny yw y dylai bancio yn Swyddfa'r Post fod yn **Gyffredinol; Dibynadwy; Hygyrch**; a **Chynaliadwy**.

Rydym am i Swyddfa'r Post gynnig ystod o gynnyrch ariannol newydd sy'n gwasanaethu'r gymuned gyfan – nid rhannau ohoni yn unig – gan helpu i gynnal y rhwydwaith drwy ddarparu refeniw uwch ar gyfer Swyddfeydd Post.

Cyflwynwyd nifer o syniadau ar gyfer gwasanaethau ariannol y gallai Swyddfa'r Post eu cynnig. Ymysg yr awgrymiadau sy'n cael eu hystyried: cyfrif cyllideb wythnosol, cyfrif cyfredol, cyfrif cynilo i blant, cyfrifon busnes, mwy o forgeisi a chysylltiadau agosach gydag undebau credyd.

Argymhellion cychwynnol yw'r rhain. Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a yw pobl yn cytuno gyda'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno. Mae'n canolbwyntio ar y cynnyrch a'r gwasanaethau y byddai pobl yn hoffi eu gweld yn eu Swyddfa'r Post, yn hytrach na'r peirianwaith ar gyfer eu cyflawni. Drwy weithredu er mwyn ehangu bancio yn Swyddfa'r Post, byddwn yn gweld rhwydwaith sy'n parhau i wasanaethu cymunedau lleol, sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol, ac sy'n cynnig ystod ehangach fyth o gynnyrch a gwasanaethau y mae pobl yn eu dymuno.

Sut i ymateb

Agorodd yr ymgynghoriad hwn ar 2 Rhagfyr 2009. Gofynnir am ymatebion erbyn 24 Chwefror 2010.

Wrth ymateb nodwch os gwelwch yn dda a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn mudiad. Os ydych yn ymateb ar ran mudiad, eglurwch pwy mae'r mudiad yn eu cynrychioli drwy ddewis y grŵp diddordeb priodol ar y ffurflen ymateb ymgynghoriad, ac os yw'n briodol, nodwch sut y casglwyd barn yr aelodau.

Mae copi o'r ffurflen ymateb ymgynghoriad wedi'i gynnwys fel Atodiad C, neu ar gael yn electronig ar www.bis.gov.uk/postofficebanking. Os fyddwch yn penderfynu ymateb fel hyn, gellir anfon y ffurflen drwy'r post, ffacs neu ebost at:

Ymgynghoriad Bancio yn Swyddfa'r Post
Gweithrediaeth Cyfranddalwyr
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Stryd Victoria
Llundain
SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000
Ffacs: 020 7215 5336
Ebost: postofficebanking@bis.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd ymateb i'r ymgynghoriad hwn arlein ar ww.bis.gov.uk/postofficebanking.

Mae rhestr o'r mudiadau sydd wedi derbyn yr ymgynghoriad hwn yn Atodiad D. Croesawir awgrymiadau am eraill a fyddai o bosib yn dymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghorol hon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau polisi am yr ymgynghoriad hwn, dylid eu cyfeirio i ddechrau at Sarah Barraclough (manylion cyswllt uchod).

Os oes gennych unrhyw bryderon am y ffordd mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei reoli neu ei gynnal, cyfeiriwch at Atodiad E sy'n cynnwys Cod Ymarfer Ymgynghoriad ac yn darparu manylion cyswllt ar gyfer cwynion.

Copïau ychwanegol

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn electronig ar www.bis.gov.uk/postofficebanking, gyda'r Asesiad Effaith a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cyfunol. Gellir archebu copïau caled ychwanegol o:

BIS Publications Orderline
ADMAIL 528
Llundain
SW1W 8YT
Ffôn: 0845 015 0010
Ffacs: 0845 015 0020
Minicom: 0845 015 0030
Ebost: publications@bis.gsi.gov.uk

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod ffurfiau amgen ar gael wrth ofyn amdanynt.

Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth sy'n cael ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill, neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Os ydych am i wybodaeth, gan gynnwys data personol yr ydych yn ei ddarparu, gael ei drin yn gyfrinachol, cofiwch dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth bod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sydd yn delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaeth cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi egluro eich rhesymau dros farnu bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol. Os fyddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gellir sicrhau cyfrinachedd dan bob amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, yn ei hun, yn cael ei ystyried fel rhwymedigaeth ar yr Adran.

Rhan 1: Cyflwyniad

1.1 Mae Swyddfa'r Post ymysg y sefydliadau â mwyaf o ymddiriedaeth ynddynt yn y wlad. Bu'n nodwedd o fywyd Prydain ers dros dair canrif, ac mae'n sefyll wrth galon cymunedau lleol yn darparu gwasanaethau hanfodol a chynnyrch dibynadwy drwy gysylltiad wyneb yn wyneb.

1.2 Dros y bum mlynedd diwethaf, daeth Swyddfa'r Post hefyd i fod yn un o'r darparwyr gwasanaethau ariannol mwyaf llwyddiannus, sy'n tyfu gyflymaf. Bellach mae'n cynnig ystod eang o gynnyrch bancio: o fondiau twf i arian tramor ac o fancio busnes i Glwb Nadolig. Mae Swyddfa'r Post yn ymfalchïo bod ei chynnyrch yn syml, yn cynnig gwerth da am arian, heb unrhyw anfanteision.

1.3 Cred y Llywodraeth ei bod yn bryd ehangu'r hyn y mae Swyddfa'r Post yn ei gynnig. Mae tri phrif reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae'r cythrwfl diweddar yn y marchnadoedd arian wedi arwain nifer i alw am ddarparwr mwy lleol o wasanaethau ariannol – un y mae ganddynt hyder ynddo ac sydd â changen yn agos i'w cartrefi. Yn ail, mae gan Swyddfa'r Post bresenoldeb lleol parhaus ar adeg pan fo rhai darparwyr eraill yn lleihau eu cysylltiad wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, felly mae mewn lle perffaith i gynnig gwasanaethau ariannol hanfodol i bawb, gan gynnwys y rhai sydd eisoes, neu sydd mewn perygl o fod, wedi'u heithrio'n ariannol. Ac yn drydydd, wrth i fwy a mwy ohonom ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan arwain at ddirywiad yn ffynonellau refeniw traddodiadol Swyddfa'r Post, mae cyfle i wasanaethau ariannol fod yn ardal o dwf gwirioneddol ar ei chyfer.

1.4 Am y rhesymau hyn, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 29 Medi 2009: "Rwyf am i Swyddfa'r Post chwarae rhan llawer mwy, gan ddod â gwasanaethau bancio yn ôl at galon cymunedau".

1.5 Mae'r Llywodraeth yn datblygu'r ymrwymiad drwy lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus cenedlaethol hwn ar ddyfodol bancio yn Swyddfa'r Post. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar yr hyn y mae Swyddfa'r Post eisoes yn ei wneud ym maes gwasanaethau ariannol, a ble y gellid mynd ymhellach. Mae'n gosod yr ystod eang gyfredol o wasanaethau Swyddfa'r Post ac yn egluro sut a ble y gellid cyrraedd atynt. Mae'n tynnu cymhariaeth gyda Banciau Post ledled y byd, ac yn gofyn beth y gall y DU ddysgu oddi wrthynt.

1.6 Gan edrych ymlaen, mae'r ymgynghoriad hwn yn gosod gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer bancio yn Swyddfa'r Post a'r gwerthoedd a ddylai fod yn sylfaen iddo. Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn edrych ar rai o'r syniadau sydd wedi'u cynnig ar gyfer y mathau o gynnyrch a gwasanaethau ariannol y gallai Swyddfa'r Post eu cynnig, ac yn

gofyn i ymatebwyr am eu barn, yn ogystal ag awgrymiadau am gynnyrch newydd yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnig gan eu Swyddfa Bost leol.

1.7 Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y cynnyrch a'r gwasanaethau y byddai pobl yn hoffi eu gweld yn Swyddfa'r Post, yn hytrach na'r peirianwaith ar gyfer eu darparu. Nod yr ymgynghoriad hwn felly yw gofyn i bobl beth arall maent yn dymuno gweld Swyddfa'r Post yn ei wneud o ran gwasanaethau ariannol. Mae nod y broses hon yn glir: Swyddfa'r Post sy'n parhau i wasanaethu cymunedau lleol; gan gynnig ystod ehangach fyth o gynnyrch a gwasanaethau y mae ei chwsmeriaid yn eu dymuno; ac sydd yn fwy fforddiadwy a chynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol.

Rhan 2: Ymrwymiad y Llywodraeth at Swyddfa'r Post

2.1 Cyn canolbwyntio ar wasanaethau ariannol, mae'n ddefnyddiol deall ymrwymiad y Llywodraeth at Swyddfa'r Post, a'r hyn yr ydym yn credu yw swyddogaeth Swyddfa'r Post.

2.2 Mae Swyddfa'r Post Cyf (Swyddfa'r Post) yn rhan o grŵp o gwmnïau dan berchnogaeth Royal Mail Holdings plc, sydd yn y pen draw yn eiddo i'r Llywodraeth. Mae Swyddfa'r Post yn gyfrifol am reoli'r rhwydwaith o ganghennau, a'i rhiant, Grŵp y Post Brenhinol Cyf, yn gweithredu'r busnes llythyron a pharseli. Mae'r Llywodraeth yn chwarae rhan cyfranddaliwr gweithredol drwy'r Weithrediaeth Cyfranddalwyr, gan weithio'n agos gyda rheolwyr Swyddfa'r Post er mwyn datblygu strategaeth gyffredinol (gan gynnwys polisi'r Llywodraeth ar gyfer y rhwydwaith). Nid yw'r Llywodraeth, fodd bynnag, yn ymwneud â rheolaeth y cwmni o ddydd i ddydd.

2.3 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan hanfodol yn gymdeithasol ac yn economaidd mewn cymunedau lleol ledled y wlad. Mae'n gwneud hyn drwy gynnig mynediad at gynnyrch a gwasanaethau hanfodol ledled rhwydwaith o ganghennau. Mae'r rhwydwaith hwnnw'n un sylweddol – yn cynnwys dros 11,500 o ganghennau. I roi'r ffigwr hwnnw mewn cyd-destun, mae'n werth ystyried bod gan y pedair archfarchnad fwyaf gyda'i gilydd tua 4,000 o ganghennau. Mae 23 miliwn ohonom yn ymweld â Swyddfa'r Post bob wythnos. Amcangyfrifodd ymchwil diweddar gan y Comisiwn Gwasanaethau Post (Postcomm) bod gwerth rhwydwaith Swyddfa'r Post yn nhermau cymdeithasol yn fwy na £2.3 biliwn yn flynyddol. Ond mae rhwydwaith o'r maint hwn hefyd yn ddrud i'w gynnal.

2.4 Gan ein bod yn cydnabod mai cryfder mawr Swyddfa'r Post yw ei chwmpas cenedlaethol a'i chyrhaeddiad lleol, mae'r Llywodraeth wedi gosod tri ymrwymiad. Yn gyntaf, rydym yn buddsoddi hyd at £1.7 biliwn o hyn i 2011 – sy'n cynnwys cymhorthdal blynyddol o £150 miliwn y flwyddyn – i helpu i gefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post.

2.5 Yn ail, rydym wedi gosod gwarant i sicrhau bod Swyddfa'r Post yn aros yn lleol – y maen prawf hygyrchedd (gweler Blwch 1) – sy'n nodi'r pellter mwyaf y dylai pobl orfod ei deithio i gyrraedd at eu Swyddfa Bost lleol, ac yn cynnwys amddiffyniad penodol ar gyfer y bregus. O ganlyniad, yn genedlaethol mae 93.3% o'r boblogaeth

yn byw o fewn un filltir, a 99.7% o'r boblogaeth yn byw o fewn tair milltir, i'w Swyddfa Bost agosaf.

2.6 Ac yn drydydd, rydym wedi egluro y byddwn yn parhau i gefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post tu hwnt i 2011 ac na fyddwn yn cefnogi unrhyw raglen o gau pellach. Gyda gwelliannau effeithiolrwydd Swyddfa'r Post a datblygiadau ei chynnyrch newydd, mae'r rhwydwaith bellach ar sylfaen mwy cynaliadwy, ac rydym am adeiladu ar y sylfaen honno. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cynllun y Llywodraeth i haneru diffyg y Llywodraeth dros bedair blynedd.

2.7 Ond gwyddom fod sialensiau gwirioneddol yn parhau. Mae'r mwy a mwy o'r gwasanaethau yr oedd pobl ar un adeg yn eu defnyddio yn uniongyrchol yn eu Swyddfa Bost leol, bellach ar gael i bobl arlein, drwy'r rhyngrwyd.

2.8 Mae Swyddfa'r Post yn gweithio'n galed i adeiladu meysydd busnes newydd. Ar frig y rhestr mae gwasanaethau ariannol. Drwy adeiladu ei busnes gwasanaethau ariannol, a gyda chefnogaeth barhaus y Llywodraeth, bydd Swyddfa'r Post yn helpu i sicrhau bod ei hased bwysicaf – y rhwydwaith – yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol.

Blwch 1: Y meini prawf hygyrchedd

Mae pump o feini prawf hygyrchedd yn berthnasol ar lefel genedlaethol:

- 99% o boblogaeth y DU i fod o fewn tair milltir i'w Swyddfa Bost agosaf;
- 90% o'r boblogaeth i fod o fewn milltir i'w Swyddfa Bost agosaf;
- 99% o gyfanswm y boblogaeth mewn ardaloedd dinesig difreintiedig ledled y DU i fod o fewn milltir i'w Swyddfa Bost agosaf;
- 95% o gyfanswm y boblogaeth ddinesig ledled y DU i fod o fewn milltir i'w Swyddfa Bost agosaf; a
- 95% o gyfanswm y boblogaeth wledig ledled y DU i fod o fewn tair milltir i'w Swyddfa Bost agosaf.

Hefyd, mae'r meini prawf hygyrchedd canlynol yn berthnasol ar lefel leol i sicrhau lleiafswm lefel o fynediad ar gyfer cwsmeriaid sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell:

- 95% o'r boblogaeth ym mhob ardal cod post i fod o fewn chwe milltir i'w Swyddfa Bost agosaf.

Rhan 3: Gwasanaethau ariannol cyfredol Swyddfa'r Post

3.1 Nid yw nifer o bobl yn sylweddoli graddfa gyfredol gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post. Er mai nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn beth arall fedrai Swyddfa'r Post ei wneud yn y maes hwn, dylem yn gyntaf edrych ar yr hyn mae eisoes yn ei wneud.

3.2 Swyddfa'r Post yw un o'r darparwyr gwasanaethau ariannol sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Er ein bod fel rheol yn cysylltu Swyddfa'r Post gyda llythyron, stampiau a pharseli, daw tua threian o incwm Swyddfa'r Post o wasanaethau ariannol.

Blwch 2: Ffeithiau ynglŷn â Bancio yn Swyddfa'r Post

- Mae dros 2 filiwn o bobl hyd yma wedi defnyddio gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post i fuddsoddi eu harian, prynu yswiriant, neu ddefnyddio cerdyn credyd Swyddfa'r Post.
- Mae Swyddfa'r Post yn cynnig dros 1,900 o beiriannau ATM i'w defnyddio am ddim. Rhagwelir y bydd 58 miliwn o drafodion codi arian, cyfanswm o £3.5 biliwn, drwy rwydwaith peiriannau ATM Swyddfa'r Post yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Mae tua 200 miliwn o filiau cartref yn cael eu talu yng nghanghennau Swyddfa'r Post bob blwyddyn.
- Swyddfa'r Post yw darparwr mwyaf y DU o arian tramor – mae'n cynnig 72 math o arian ac yn trafod dros £2.5 biliwn o arian tramor bob blwyddyn.
- Swyddfa'r Post yw'r deliwr arian mwyaf yn y wlad gyda dros £80 biliwn yn pasio drwy'r rhwydwaith bob blwyddyn. Am bob £1 mewn cylchrediad, mae dros 14c yn mynd drwy gangen o Swyddfa'r Post.

3.3 Mae Swyddfa'r Post eisoes yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau ariannol na nifer o fanciau, yn cwmpasu nifer o wahanol anghenion a nifer o wahanol fathau o gwsmeriaid. Er enghraifft, os ydych am fuddsoddi cynilion, mae Swyddfa'r Post yn cynnig ei chyfrifon cynilo ei hun a chynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Os ydych yn teithio dramor, pleidleisiwyd dros Swyddfa'r Post fel darparwr gorau arian tramor. Os ydych am yswirio'ch car, eich fan, neu eich beic modur, mae gan Swyddfa'r Post ystod o bolisïau ar eich cyfer. Os ydych eisiau

arian parod, yn ogystal â gwasanaeth cownter mewn canghennau, mae gan Swyddfa'r Post dros 1,900 o beiriannau ATM i'w defnyddio am ddim ledled y wlad. Os ydych yn bwriadu prynu tŷ, efallai nad ydych yn gwybod bod Swyddfa'r Post hefyd yn cynnig morgeisi. Ar gyfer busnesau bach, mae Swyddfa'r Post yn cynnig gwasanaethau bancio busnes, yswiriant a thrafod arian. Mewn gwirionedd, hyd yn oed os nad ydych yn bancio gyda Swyddfa'r Post, mewn sawl achos gallwch gyrraedd at eich cyfrif yn eich Swyddfa Bost leol.

3.4 Mae ystod gyfredol Swyddfa'r Post o wasanaethau ariannol yn mynd ymhell tu hwnt i hyn. Ceir crynodeb o'i chynnyrch ym Mlwch 3. Ceir rhestr fanwl o gynnyrch ariannol Swyddfa'r Post, a sut y gallwch gyrraedd atynt, yn Atodiad A.

Blwch 3: Gwasanaethau ariannol cyfredol Swyddfa'r Post

Benthyciadau

Mae Swyddfa'r Post yn cynnig ystod o gynnyrch credyd a ddarparir gan Bank of Ireland:

- Cerdyn Credyd Swyddfa'r Post**
- Benthyciadau Personol Swyddfa'r Post*
- Morgeisi Swyddfa'r Post**

Yswiriant

Mae Swyddfa'r Post yn cynnig ystod gystadleuol o gynnyrch yswiriant (mewn cydweithrediad ag ystod o yswirwyr):

- Yswiriant car**
- Yswiriant cartref**
- Yswiriant fan**
- Yswiriant beic modur**
- Yswiriant anifeiliaid anwes*
- Yswiriant bywyd dros 50**
- Yswiriant bywyd**

Gwasanaethau busnes

I hwyluso bancio i fusnesau mae Swyddfa'r Post yn cynnig:

- Taliadau Swyddfa'r Post
- Gwasanaethau bancio busnes mewn canghennau (mewn cydweithrediad gydag Alliance and Leicester) ar gyfer busnesau â chyfrifon ag Alliance and Leicester, Bank of Ireland a Clydesdale
- Cerdyn awdurdodi siec
- Gwasanaeth casglu arian
- Yswiriant busnes

Biliau, mynediad a throsglwyddiadau

- Talu biliau a rhagdaliadau cardiau nwy, allweddi trydan, trafodion E-dalu, dŵr, ffôn, rhent cyngor ac yswiriant (yn dibynnu ar gytundebau gydag Awdurdodau Lleol a chwmnïau gwasanaethau perthnasol).
- Mynediad at gyfrifon cyfredol ar gyfer 60% o gyfrifon cyfredol banciau eraill
- Mynediad at gyfrifon banc sylfaenol ar gyfer pob banc
- Moneygram ar gyfer trosglwyddiadau rhyngwladol
- Trosglwyddiadau arian eiddo tramor*
- Archebion Post
- Codi arian budd-daliadau, gan gynnwys Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post

Cynilion

Mae Swyddfa'r Post yn cynnig ystod eang o opsiynau cynilo tymor byr a thymor hir. Cynnyrch Swyddfa'r Post a ddarperir gan Bank of Ireland:

- Instant Saver Swyddfa'r Post
- ISA Arian Parod Swyddfa'r Post (amrywiol)
- Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Swyddfa'r Post
- ISA Arian Parod Graddfa Sefydlog Swyddfa'r Post
- Bond Twf Swyddfa'r Post
- Bond Cyfalaf Gwarantedig Swyddfa'r Post**
- Bond Cyfalaf Gwarantedig Swyddfa'r Post (ISA Arian Parod)**
- ISA Buddsoddiad Swyddfa'r Post

Mae Swyddfa'r Post hefyd yn cynnig:

- Stampiau cynilo y gellir eu defnyddio ar gyfer talu biliau, trafodion Swyddfa'r Post neu fel anrhegion
- Clwb Nadolig sy'n eich galluogi i gynilo ar gyfer talebau anrhegion Swyddfa'r Post, y gellir eu defnyddio hefyd mewn rhai siopau

Mae Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (CBC) hefyd yn cynnig ambell gynnyrch drwy Swyddfa'r Post:

- Cyfrif Cynilo Mynediad Rhwydd CBC
- Cyfrif Buddsoddi CBC
- Bondiau Incwm CBC
- Bondiau Premiwm CBC
- Bondiau Bonws Plant CBC
- Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog CBC
- Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol CBC

Teithio

Wrth deithio dramor mae Swyddfa'r Post yn cynnig:

- Arian parod a sieciau teithio heb gomisiwn**
- Cerdyn arian teithio
- Yswiriant teithio**

Mae'r holl gynnyrch ar gael yn y canghennau, ac eithrio lle nodir.
* yn golygu arlein a/neu ffôn yn unig ** yn golygu rhai canghennau yn unig.

3.5 Gwyddom fod rhai pobl yn ei gweld yn anodd defnyddio cyfrif banc. Er bod y Llywodraeth wedi gweithio'n galed i ostwng y nifer o bobl sydd heb gyfrif banc, mae tua 900,000 o oedolion heb gyfrif o hyd.

3.6 Rydym am i bawb gael mynediad at wasanaethau ariannol sy'n ateb eu gofynion. Golyga mynediad rhwydd, mewn nifer o achosion, ddarparu gwasanaethau bancio drwy sefydliadau lleol, dibynadwy, a all helpu i oresgyn rhwystrau megis pellter, cost a diffyg ymddiriedaeth. Mae gan Swyddfa'r Post ystod o gynnyrch wedi'u targedu'n arbennig at y rhai ar incwm isel, neu'r rhai y byddai'n well ganddynt arbed drwy opsiynau gwahanol i gyfrifon banc, megis Clwb Nadolig a stampiau arbed. Mae nifer o bobl yn ymweld â'u Swyddfeydd Post lleol yn wythnosol i gyrraedd at fudd-daliadau drwy eu Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post (POCA), ac mae'r Llywodraeth wedi gweithredu i sicrhau y gall pobl barhau i gyrraedd at eu POCA yn Swyddfa'r Post – gweler Blwch 4.

Blwch 4: Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post (POCA)

Yr hyn y mae pobl yn ei hoffi am y POCA yw ei symlrwydd: mae'n gyfrif syml iawn i'w agor a'i weithredu, ac yn ei hanfod mae'n ffordd o dalu budd-daliadau a phensiynau i'r rhai nad ydynt yn medru, neu sy'n dewis peidio, defnyddio bancio prif ffrwd at y diben hwn.

Mae hefyd yn cynorthwyo i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau y gall pobl gyrraedd at eu pensiynau a'u budd-daliadau yn bersonol, mewn arian parod, mewn cangen o Swyddfa'r Post, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gan gydnabod pwysigrwydd y POCA fel ffynhonnell incwm ar gyfer Swyddfa'r Post, ac oherwydd mai Swyddfeydd Post yn aml yw unig ddarparwyr gwasanaethau ariannol mewn ardaloedd anghysbell, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau fis Tachwedd 2008 y byddai'r Llywodraeth yn dyfarnu cytundeb newydd i Swyddfa'r Post ar gyfer y POCA hyd at fis Mawrth 2015, gyda'r posibilrwydd o estyniad tu hwnt i hynny.

Mae rhai gwelliannau i'r POCA eisoes wedi'u cynllunio. Er enghraifft, o wanwyn 2010 ymlaen bydd modd i gwsmeriaid godi eu pensiynau a'u budd-daliadau o'u POCA ym mheiriannau arian Swyddfa'r Post, yn ogystal â dros y cownter yn Swyddfa'r Post.

3.7 Mae'r adran hon wedi gosod y gwasanaethau ariannol y mae Swyddfa'r Post eisoes yn eu cynnig. Y cwestiwn nesaf i'w ystyried yw ble y medrai fynd ymhellach. Yn y cyswllt hwn, mae cymariaethau defnyddiol i'w gwneud gyda swyddfeydd post eraill ledled y byd.

Cwestiwn 1

Beth ydych chi yn ei werthfawrogi am wasanaethau ariannol, bancio a thaliadau cyfredol Swyddfa'r Post, a pa ffactorau sy'n penderfynu a ydych yn eu defnyddio?

Rhan 4: Banciau Post ledled y byd

4.1 Nid yw'r syniad o gyflawni gwasanaethau bancio drwy swyddfeydd post yn syniad newydd. Sefydlwyd "Banc Post" cyntaf y byd yn y DU – fel Banc Cynilo Swyddfa'r Post yn 1861. Mewn nifer o wledydd mae gwasanaethau ariannol bellach ar gael drwy Swyddfeydd Post. Mae'r model hwn yn aml yn cael ei adnabod fel 'Banc Post', er nad yw pob swyddfa'r post yn fanciau yn eu hunain. Fel yn y DU, mae gan Swyddfeydd Post tramor rwydwaith canghennau eang yn aml, a nifer o gwsmeriaid cyfredol a fyddai'n croesawu'r cyfleuster o fedru cyrraedd at gynnyrch a gwasanaethau ariannol yn eu cangen leol o swyddfa'r post. Gwelir y mwyafrif o Fanciau Post yn wahanol i fanciau mwy traddodiadol yn y gwledydd lle maent yn boblogaidd. Maent yn pwysleisio bod eu rhwydwaith canghennau yn eu gwneud yn hygyrch (wedi'u hatodi gan sianelau eraill megis y rhyngrwyd neu'r ffôn lle bo angen); ac maent yn tynnu sylw at y gwerth da am arian y maent yn ei gynnig, eu statws dibynadwy, a'u lefelau uchel o wasanaeth cwsmer.

4.2 Nid yw pob Banc Post yn cynnig yr un ystod o gynnyrch a gwasanaethau. Nid oes un model unigol: mae'n dibynnu beth yw dymuniad cwsmeriaid yn y wlad arbennig honno. Mae'r trefniant hefyd yn gwahaniaethu'n eang. Mae rhai yn fanciau llawn eu hunain (er enghraifft La Banque Postale yn Ffrainc neu Postbank yn yr Almaen); mae rhai yn fentrau ar y cyd gyda banc (er enghraifft Banque de la Poste/Bank van De Post yng ngwlad Belg); a rhai yn gweithredu fel dosbarthwyr ar gyfer cynnyrch banc arall (er enghraifft mae Postbank yn yr Iseldiroedd yn gwerthu cynnyrch ING).

4.3 Fel darlun o'r mathau o wasanaethau y mae Banciau Post yn eu cynnig, mae Blychau 5 a 6 yn darparu manylion am y cynnyrch a'r gwasanaethau y mae dau Fanc Post rhyngwladol llwyddiannus yn eu cynnig, gan y gallant ddangos llwybr posibl ar gyfer gwasanaethau bancio Swyddfa'r Post. Ac eithrio cyfrif cyfredol, fodd bynnag, mae ystod gyffredinol cynnyrch y Banciau Post rhyngwladol yn debyg iawn i'r ystod o wasanaethau ariannol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan Swyddfa'r Post.

Blwch 5: Kiwibank (Seland Newydd)

Mae Kiwibank yn enghraifft ddiweddar o weithredwr gwasanaethau post yn mentro i'r farchnad gwasanaethau ariannol. Mae'n canolbwyntio ar gynnyrch poblogaidd ac mae'n gosod ei hun fel hyrwyddwr defnyddwyr, yn ogystal â banc 'cartref'. Mae gan Kiwibank ystod eang o gynnyrch ariannol:

Bancio Personol: benthyciadau cartref, benthyciadau personol, cardiau credyd, cyfrifon cyfredol, cyfrifon cynilo, buddsoddiadau ac yswiriant.

Bancio Busnes: benthyciadau, cyfrifon siec, cyfrifon cynilo, cardiau credyd, buddsoddiadau, gwasanaethau masnachwyr ac yswiriant.

Gwasanaethau rhyngwladol: trosglwyddiadau arian rhyngwladol arlein ac â llaw, cyfnewid tramor a chyfrifon arian tramor a sieciau teithio.

Ymysg y gwasanaethau bancio mae bancio rhyngrwyd, ffôn a symudol, negeseuon testun ac ebost, datganiadau arlein ac ebost, a rhwydwaith rhyngwladol o beiriannau ATM.

Blwch 6: Bancoposta (yr Eidal)

Mae'r Banc Post Eidalaidd yn derbyn ei amrywiol gynnyrch gan wahanol gyflenwyr ac yn eu masnachu drwy ei rwydwaith fel rhai 'syml, fforddiadwy a theg'. Mae'n cynnig y cynnyrch canlynol:

Bancio Personol: benthyciadau, morgeisi, cyfrifon cyfredol, cardiau credyd, cardiau adlwythadwy, cronfeydd buddsoddi, bondiau, yswiriant, tystysgrifau a llyfrau cynilo post.

Bancio busnes: cyfrifon busnes a chyfrifon arlein.

Gwasanaethau rhyngwladol: archebu arian, Moneygram ac Eurogiro.

Cwestiwn 2

A yw'r cynnyrch neu wasanaethau a gynigir gan Fanciau Post Iedled y byd yn darparu unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygiad gwasanaethau bancio neu ariannol yn Swyddfa'r Post yn y DU?

Rhan 5: Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer bancio yn Swyddfa'r Post

5.1 Gwelwyd yn Rhan 3 bod Swyddfa'r Post eisoes yn cynnig ystod eang o wasanaethau ariannol, a'i bod yn wahanol i nifer o ddarparwyr eraill o ran y ffaith ei bod yn darparu ar gyfer pob rhan o gymdeithas – gan gynnwys y rhai nad ydynt fel rheol yn dod i gysylltiad â sefydliadau gwasanaethau ariannol.

5.2 Mae'r Llywodraeth yn awyddus i Swyddfa'r Post ehangu ei darpariaeth gwasanaethau ariannol – er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at wasanaethau ariannol hanfodol, ac er mwyn cynorthwyo i gynnal y rhwydwaith. Yr unig ffordd y bydd hyn yn cael ei gyflawni yw os fydd y gwasanaethau yn fuddiol i Swyddfa'r Post ac yn fforddiadwy i'r trethdalwyr.

Gweledigaeth newydd

5.3 Er mwyn dod â gwasanaethau bancio yn ôl at galon cymunedau, mae'r Llywodraeth yn argymell gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau ariannol a bancio yn Swyddfa'r Post. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Bancio yn Swyddfa'r Post ar sail pedwar o werthoedd:

- **Cyffredinol**
- **Hygyrch**
- **Dibynadwy**
- **Cynaliadwy**

Cyffredinol: Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'r Llywodraeth am i Swyddfa'r Post ehangu ystod y gwasanaethau bancio sydd ar gael yng nghalon cymunedau pobl. Defnyddir Swyddfa'r Post yn eang gan bob rhan o gymdeithas, a dylai'r gwasanaethau bancio y mae'n eu cynnig adlewyrchu amrywiaeth ei chwsmeriaid. Golyga hyn sicrhau bod Swyddfa'r Post yn cynnig ystod o gynnyrch sy'n atyniadol i bawb yn y gymuned. Dylai Swyddfa'r Post gynnig gwasanaethau addas i'r rhai ar incwm isel, yr aelodau mwyaf bregus o'r gymuned, a'r rhai nad yw busnesau eraill o bosib yn darparu ar eu cyfer. Eto dylai gynnig cynnyrch syml, gwerth da am arian, sy'n ddeniadol ledled y gymuned – yn arbennig i'r rhai sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau bancio, ond sy'n gosod gwerth uchel ar wasanaethau wyneb yn wyneb gan sefydliad y maent yn ymddiried ynddo ac yn ymweld ag ef yn rheolaidd.

Hygyrch: Ased fwyaf Swyddfa'r Post yw ei rhwydwaith dihafal o ganghennau. Mae hyn yn caniatáu i'w chwsmeriaid gael cysylltiad wyneb yn wyneb â'u his-bostfeistr

mewn dros 11,500 o ganghennau mewn cymunedau ledled y wlad, (o'i gymharu â'r 10,000 o ganghennau sydd gan yr holl fanciau gyda'i gilydd). Ni ddylai Swyddfa'r Post fod yn rhith fanc yn unig – ei chryfder yw ei bod yn sefydliad gwirioneddol gyda changhennau go-iawn ac wynebau cyfarwydd y tu ôl i'w chownteri. Rydym felly am sicrhau bod yr holl gynnyrch y mae Swyddfa'r Post yn eu cynnig mor hygyrch ag sy'n bosibl ledled y rhwydwaith (gan gynnwys Allestyn[1]) yn ogystal â bod yn hygyrch arlein a dros y ffôn i gynyddu dewis cwsmeriaid.

Dibynadwy: Mae'r brand "Swyddfa'r Post" yn gryf. Mae pobl yn gweld Swyddfa'r Post fel sefydliad diogel y gallant ymddiried ynddo. Rydym am i Swyddfa'r Post barhau i gynnig cynnyrch sy'n cyflawni'r brand cryf hwnnw, a'i agwedd cyfrifol at wasanaethau ariannol. Golyga hyn na ddylai Swyddfa'r Post gynnig cynnyrch cymhleth na pheryglus. Dylai ganolbwyntio ar gynnyrch syml, tryloyw, sy'n werth da am arian, heb anfanteision.

Cynaliadwy: Prif flaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer Swyddfa'r Post yw rhwydwaith gynaliadwy sydd hefyd yn fforddiadwy. Rydym am weld dyfodol cryf, cadarn a chynaliadwy ar gyfer rhwydwaith Swyddfa'r Post, wedi'i chefnogi gan wasanaethau ariannol sy'n ddichonadwy yn ariannol ar gyfer Swyddfa'r Post, ac yn cynnig gwerth da am arian i ddefnyddwyr a threthdalwyr.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno mai dyma'r gwerthoedd cywir ar gyfer bancio gyda Swyddfa'r Post, h.y. cyffredinol, hygyrch, dibynadwy a chynaliadwy?

1 Mae gwasanaethau Allestyn Swyddfa'r Post yn ffordd o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn cymunedau lle nad yw Swyddfa Bost draddodiadol yn ddichonadwy neu ymarferol. Maent yn galluogi Swyddfa'r Post i gynnal gwasanaeth mewn cymunedau llai.

Rhan 6: Ehangu gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post

6.1 Er bod darpariaeth gwasanaethau ariannol a bancio Swyddfa'r Post yn helaeth, nid yw'n llawn. Rhaid i ni glustnodi'r meysydd lle gall Swyddfa'r Post wneud gwahaniaeth gwirioneddol, a phenderfynu pa swyddogaeth y dylai Swyddfa'r Post ei chwarae, boed yn datblygu cynnyrch a gwasanaethau cyfredol neu greu rhai newydd.

6.2 Credwn y dylai Swyddfa'r Post adeiladu ar ei chryfderau allweddol – ei brand dibynadwy a'r cyswllt wyneb yn wyneb dihafal y mae'n ei gynnig ledled ei rhwydwaith helaeth – a darparu cynnyrch newydd i wneud arian er mwyn cynnal y rhwydwaith. Ond rydym hefyd yn credu bod Swyddfa'r Post i bawb, beth bynnag eu hincwm, ac yn cydnabod bod Swyddfa'r Post eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth estyn at y rhai nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n dda gan sefydliadau a gwasanaethau ariannol cyfredol.

6.3 Cyflwynwyd ystod o awgrymiadau ar gyfer sicrhau dyfodol Swyddfa'r Post. Daethant o nifer o gyfeiriadau – y Pwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau, y glymblaid Banc Post a grwpiau unigol, mudiadau ac unigolion preifat. Rydym am i'r ymgynghoriad hwn helpu i benderfynu ai'r argymhellion a nodir isod yw'r rhai cywir i'w dilyn, ac a oes syniadau eraill y dylid eu hystyried.

6.4 Gellir gosod y syniadau y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried mewn tri grŵp:

- **Mynediad**
- **Cefnogaeth**
- **Cynhwysiad**

Mynediad: Yr hyn sy'n gwneud Swyddfa'r Post yn unigryw yw ei rhwydwaith o ganghennau. Mae'r Llywodraeth yn darparu cefnogaeth ariannol sylweddol i Swyddfa'r Post er mwyn ei galluogi i gynnal rhwydwaith genedlaethol. Lle byddai'n ddymunol cynyddu mynediad at wasanaethau bancio penodol, byddai Swyddfa'r Post mewn lle delfrydol i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd, gellir cyrraedd at o leiaf un cyfrif banc sylfaenol o bob prif fanc drwy rwydwaith Swyddfa'r Post. Rydym wedi nodi tri o argymhellion am ffyrdd y gallai Swyddfa'r Post wella mynediad at wasanaethau bancio:

- Cyfrif Cyfredol Swyddfa'r Post: Ar hyn o bryd nid yw Swyddfa'r Post yn cynnig cyfrif cyfredol ei hun. Byddai cyflwyno Cyfrif Cyfredol Swyddfa'r Post yn medru

galluogi Swyddfa'r Post i ddenu cwsmeriaid newydd a chynyddu'r nifer o gwsmeriaid sy'n defnyddio Swyddfa'r Post o ddydd i ddydd, gan arwain at fwy o refeniw o bosib i'r canghennau a rhwydwaith mwy cynaliadwy. Gallai hefyd annog mwy o ddefnydd o wasanaeth cynilo a chynnyrch eraill gan gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Mae Swyddfa'r Post wedi cyhoeddi ei bod yn gweithio i ddatblygu cyfrif cyfredol.

- Mynediad at gyfrifon cyfredol: Bu cynnydd sylweddol yn y mynediad at gyfrifon cyfredol banciau eraill mewn Swyddfeydd Post. Serch hynny, i wneud hyn, rhaid i fanciau ddod i gytundeb gyda Swyddfa'r Post, sy'n golygu ei fod yn y pen draw yn benderfyniad masnachol ar gyfer y banc dan sylw. Ar hyn o bryd gellir cyrraedd at 60% o gyfrifon cyfredol (tua 25 miliwn o gyfrifon) drwy ganghennau Swyddfa'r Post. Mae hyn yn cwmpasu'r mwyafrif o fanciau'r stryd fawr, ond nid pob un. Gellir gwneud cynnydd yma. Mae Swyddfa'r Post yn gweithio gyda'r banciau nad ydynt yn cynnig mynediad at eu cyfrifon er mwyn eu hannog i wneud hynny.
- Mynediad at gyfrifon undeb credyd: Mae undebau credyd yn darparu gwasanaeth pwysig – yn cynnig cynilion a benthyciadau bychain mewn cymunedau lleol. Maent yn tyfu mewn poblogrwydd, gyda dros 750,000 o bobl yn defnyddio eu gwasanaethau, a thua £500 miliwn o gynilion wedi eu buddsoddi ynddynt. Serch hynny, gall cryfder undebau credyd – y ffaith eu bod yn lleol – hefyd fod yn wendid, gan y gall fod yn anodd cyrraedd at gyfrifon pan nad yw pobl yn eu hardal leol. Mae Swyddfa'r Post wedi ceisio ateb y broblem hon – gellir cyrraedd at nifer o gyfrifon cyfredol undebau credyd ar hyd rhwydwaith Swyddfa'r Post drwy Fanc y Co-operative. Serch hynny, mae'n anoddach sicrhau'r un lefel o hygyrchedd ar gyfer cyfrifon cynilo undebau credyd gan fod undebau credyd lleol yn defnyddio gwahanol systemau TG. Eto dylai natur leol Swyddfa'r Post ei gwneud yn gartref naturiol ar gyfer gwasanaeth yn caniatáu i bobl sy'n cynilo gydag undebau credyd gyrraedd at eu cyfrifon ledled y wlad. Dyma faes sy'n haeddu ymchwil pellach.

Cefnogaeth: Mae pobl yn ymddiried yn Swyddfa'r Post. Maent yn ymddiried ynddi i drin eu llythyron a'u parseli, i ddosbarthu eu pensiynau a'u budd-daliadau, i ofalu am eu cynilion, ac wrth ryngweithio gyda'r Llywodraeth (er enghraifft cael trwyddedi gyrru). Fel canolbwynt nifer o gymunedau, byddai hefyd yn fan naturiol i bobl droi pan fo angen mynediad cyfleus at wasanaethau ariannol. Mae busnesau bychain yn arbennig yn dibynnu'n helaeth ar Swyddfeydd Post, er enghraifft drwy fanteisio ar gyfleusterau bancio busnes Swyddfeydd Post yn eu cangen leol. Y cwestiwn yw a all Swyddfa'r Post gymryd cam pellach a gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chefnogaeth ar faterion ariannol.

- Gwasanaethau busnes: Ar hyn o bryd, mae Swyddfa'r Post yn cynnig y gwasanaethau bancio canlynol i fusnesau:
  - Bancio Busnes mewn Canghennau– sy'n galluogi cwsmeriaid i dalu arian parod a sieciau i mewn a chodi arian
  - Gwasanaethau Casglu Arian
  - Cardiau awdurdodi sieciau i hwyluso taliadau heb arian parod ar gyfer pwrcasau post busnes
  - Taliadau Swyddfa'r Post – ffordd syml o drin arian yn ôl ac ad-daliadau i gwsmeriaid heb ysgrifennu sieciau
  - Trosglwyddo arian drwy Moneygram

Yn ddiweddar lansiodd Swyddfa'r Post ystod o gynnyrch yswiriant busnes y gellir eu teilwra at anghenion penodol. Mae hefyd yn edrych ar gyfleoedd eraill i ehangu'r gwasanaethau ariannol y mae'n eu cynnig i fusnesau bach, gan gynnwys ei chyfrifon busnes ei hun. Mae Swyddfa'r Post eisoes yn cynnig mynediad at gyfrifon busnes Alliance and Leicester, Clydesdale Bank, a Bank of Ireland. Fel gyda chyfrifon cyfredol personol, mae cyfleoedd posibl i fanciau eraill sicrhau mynediad at eu cyfrifon busnesau bychain yn Swyddfa'r Post.

Cynhwysiad: Mae cwmpas daearyddol rhwydwaith Swyddfa'r Post, a'r nifer a'r ystod o bobl sy'n ei ddefnyddio, yn ei gosod mewn lle da i roi gwasanaethau bancio o fewn cyrraedd rhwydd i'r rhai nad ydynt fel rheol yn eu defnyddio, neu sy'n cael trafferth cyrraedd atynt. Mae Swyddfa'r Post eisoes yn cynnig ystod o gynnyrch o'r fath – gan gynnwys cynllun Clwb Nadolig, stampiau arbed, a mynediad at gyfrifon banc sylfaenol. Mae dau faes newydd lle mae'r Llywodraeth yn ystyried y gallai Swyddfa'r Post chwarae rhan ddefnyddiol:

- Cynilo: Gan fod Swyddfeydd Post yn lleol a chyfleus, maent mewn lle delfrydol i annog pobl ifanc i gynilo. Cyhoeddodd y Llywodraeth fis Tachwedd 2008 y byddai cyfrifon Porth Cynilo ar gael drwy Swyddfa'r Post, ymysg darparwyr eraill. Mae'r cynllun hwn yn gyfrif cynilo syml sy'n cynnig 50c oddi wrth y Llywodraeth am bob £1 sy'n cael ei gynilo, i annog pobl ar incwm isel i fynd i'r arfer o gynilo. Yn ychwanegol at hyn, mae lle i Swyddfa'r Post gynnig Cyfrif Cynilo i Blant, er mwyn annog plant i arfer cynilo drwy eu Swyddfa Bost leol.

- Cyllideb wythnosol: Mae nifer o gartrefi incwm isel nad ydynt yn manteisio ar yr arbedion posibl a ddaw drwy dalu am wasanaethau drwy ddebyd uniongyrchol. Dengys gwaith gan Weithgor Cynhwysiad Ariannol y Llywodraeth mai rheswm posibl am hyn yw'r gwahaniaeth rhwng cylchoedd incwm bob wythnos neu bythefnos ar un llaw, a chylchoedd bilio debyd uniongyrchol misol neu chwarterol ar y llaw arall. Un ffordd o daclo'r broblem hon a chynorthwyo cartrefi i reoli eu harian gyda mwy o hyder fyddai cynnig cyfrif syml sy'n cynnwys nodwedd cyllidebu awtomatig. Byddai cyfrif o'r fath yn medru cadw cyfran o incwm bob wythnos, a thalu biliau drwy ddebyd uniongyrchol ar sail fisol neu

chwarterol. Byddai'r cyfrif hwn yn cefnogi cartrefi incwm isel gyda'u cyllidebu, gan arwain at lai o ôl-ddyledion, a'u helpu i arbed arian drwy gyrraedd at brisiau is. Gallai hefyd fod yn fanteisiol i ddarparwyr cyfleustodau a darparwyr eraill yn sgîl mwy o sicrwydd taliadau. Byddai cyfrif cyllideb wythnosol hefyd yn medru helpu pobl sydd ag incwm isel i gyrraedd at yswiriant cynnwys cartref sylfaenol, credyd a benthyciadau gwerth isel, drwy ddarparu mwy o sicrwydd o ad-daliad ar gyfer darparwyr, ac felly mwy o barodrwydd i fenthyg neu ddarparu sicrwydd. Yn sgîl ei leoliad wrth galon cymunedau, gallai Swyddfa'r Post fod yn gartref naturiol ar gyfer cyfrif o'r fath.

Cwestiwn 4

A ydych yn credu mai dyma'r meysydd a'r cynnyrch cywir i ganolbwyntio arnynt?

Cwestiwn 5

Pa wasanaethau ariannol newydd yr hoffech eu gweld ar gael yn eich Swyddfa Bost leol?

Cwestiwn 6

Mae'r Llywodraeth eisoes yn cynnig ac yn cefnogi gwasanaethau credyd sylweddol ar gyfer pobl ar incwm isel, megis benthyciadau Cronfa Gymdeithasol[2] ac undebau credyd; pa wasanaethau eraill fedrai Swyddfa'r Post eu cynnig i gefnogi'r rhai ar incwm isel ac i wynebu eithriad ariannol, a beth fyddai'r ffordd orau i wneud iddynt gydweithio?

2 Mae'r Gronfa Gymdeithasol yn darparu benthyciadau di-log o gyllideb gyfyngedig i helpu'r rhai ar fudd-daliadau incwm gyda chostau achlysurol, a'r rhai lle mai dyfarniad yw'r unig ffordd o osgoi risg i'w iechyd neu ddiogelwch hwythau neu'r teulu.

Rhan 7: Beth nesaf?

7.1 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 24 Chwefror 2010.

7.2 Yna byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion a disgwyliwn gyhoeddi Ymateb y Llywodraeth, gydag Asesiad Effaith ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb diwygiedig, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Atodiad A: Rhestr o gynnyrch a gwasanaethau ariannol Swyddfa'r Post

Allwedd: C – mewn canghennau penodol. P – Argraffu a phostio

Gwasanaeth	Disgrifiad gwasanaeth	Argaeledd			
		Cangen	Canolfan alwadau	Y We	Peiriant ATM
Derbyn Taliadau					
Taliadau Budd-daliadau/ Pensiynau/ Lwfansau	Derbyn arian budd-daliadau, pensiynau a lwfansau drwy ddarparu mynediad at gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post a newid sieciau yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael ym mhob un o'r canghennau. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=94800755&medi aId=19100189	✔	✘	✘	✘
Taliadau Swyddfa'r Post	Mae hyn yn galluogi busnesau i reoli arian yn ôl ac ad-daliadau heb ysgrifennu sieciau, drwy ddefnyddio cod bar. Yna anfonir cyfeirnod at gwsmeriaid drwy neges testun, ebost neu'r post. Gall cwsmeriaid gymryd y cyfeirnod i unrhyw gangen o Swyddfa'r Post i dderbyn y taliad ar unwaith mewn arian parod. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=63000704&mediaId=54700711	✔	✘	✘	✘
Gwneud Taliadau					
Talu Biliau	Gwneud taliadau a rhagdaliadau ar gyfer amrywiaeth o filiau gan gynnwys cardiau nwy, allweddi trydan, trafodion E-dalu, dŵr, ffôn, rhent cyngor, archebion post ac yswiriant (rhai cynlluniau ar gael ar sail ardal, yn ôl cytundeb gydag Awdurdodau Lleol). Ar gael ym mhob un o'r canghennau. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=86500737&mediaId=20900329	✔	✘	✘	✘
Gwasanaeth Bancio					
Bancio Personol	Codi arian am ddim, newid sieciau personol, talu arian neu sieciau i mewn (yr ail yn y mwyafrif o achosion) ar gyfer y partner fanciau: Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Bank of Scotland, Barclays, Cahoot, Clydesdale Bank, Halifax, Lloyds TSB, Nationwide, Northern Bank, The Co-Operative Bank a Smile. (Gweler tudalennau 39-40 am fwy o fanylion, gan gynnwys pa gyfrifon sylfaenol y gellir cyrraedd atynt). Mae'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob un o'r canghennau. Hefyd gellir codi arian o beiriannau ATM y Swyddfeydd Post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=94800755&mediaId=19400181	✔	✘	✘	✔

Gwasanaeth	Disgrifiad gwasanaeth	Argaeledd			
		Cangen	Canolfan alwadau	Y We	Peiriant ATM
Bancio Busnes	Gwasanaethau bancio busnes ar gyfer cwsmeriaid: Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Clydesdale a HSBC (talu sieciau i mewn yn unig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob un o'r canghennau. Hefyd gellir codi arian o beiriannau ATM y Swyddfeydd Post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=63000704&mediaId=96300774	✔	✘	✘	✔
Peiriannau Arian	Dros 1,900 o beiriannau ATM i'w defnyddio'n rhad ac am ddim mewn canghennau. Mae 673 peiriant arian y tu mewn, a 1,252 y tu allan i'r canghennau. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content2?catId=86500737&mediaId=95200763	✔	✘	✘	✔
Trosglwyddo Arian					
Moneygram	Trosglwyddo arian yn rhyngwladol hyd at £5,000 i dros 190 o wledydd. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=86500737&mediaId=96300777	✔	✘	✘	✘
Archebion Post	Prynu neu gyfnewid. Gellir eu derbyn mewn unrhyw gangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=94800755&mediaId=96200777	✔	✘	✘	✘
Trosglwyddo arian Eiddo Tramor	I brynu neu werthu eiddo tramor, neu i wneud neu dderbyn taliadau rhyngwladol rheolaidd. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael dros y ffôn neu arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=86500737&mediaId=92800751	✘	✔	✔	✘
Cynilo					
Instant Saver Swyddfa'r Post	Cyfrif cynilo gyda mynediad ato ar unwaith. Mynediad ar unwaith at yr holl arian ym mhob cangen, dros y ffôn, arlein, drwy'r post neu drwy 60,000 peiriant arian Link. Chwech trafodiad codi arian am ddim bob blwyddyn. Gellir agor y cyfrif ym mhob cangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=23200510	✔	✔	P	✔
ISA Arian Parod Swyddfa'r Post (Cyfnewidiol)	Cyfraddau llog cystadleuol, dim taliadau am godi arian, dim treth, a mynediad rhwydd. Ymgeisiwch drwy'r post, neu mewn unrhyw gangen. Gellir gwneud taliadau yn unrhyw gangen neu drwy'r post. Gellir codi arian drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=95700767	✔	✘	P	✘
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol–– Cyfrif Cynilo Mynediad Rhwydd	Cynilo hyblyg, mynediad ar unwaith, cerdyn arian i hwyluso talu i mewn a chodi arian, a haenau cyfraddau llog. Ymgeisiwch yn unrhyw un o'r canghennau, dros y ffôn neu drwy'r post. Gellir codi arian o unrhyw gangen neu drwy beiriant arian Link. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=95800881	✔	✔	✔	✔
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Cyfrif Buddsoddi	Cyfrif cynilo â phaslyfr, mynediad rhwydd (dim rhybudd na chosb), gyda haenau cyfraddau llog. Ymgeisiwch mewn unrhyw gangen, dros y ffôn, arlein neu drwy'r post. Gellir codi arian drwy wneud cais i Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=95800881&mediaId=72400733	✔	✔	✔	✘

Gwasanaeth	Disgrifiad gwasanaeth	Argaeledd			
		Cangen	Canolfan alwadau	Y We	Peiriant ATM
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Bondiau Incwm	Mynediad rhwydd (dim rhybudd na chosb), incwm misol rheolaidd, cyfraddau llog cystadleuol, a chyfraddau uwch o log ar fuddsoddiadau dros £25,000. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen, dros y ffôn, arlein neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=95800888	✔	✔	✔	✘
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Bondiau Premiwm	Pob gwobr yn ddi-dreth, dwy brif wobr £1 miliwn, a gall unrhyw un dros 16 oed fuddsoddi. Ymgeisiwch mewn unrhyw gangen, dros y ffôn, arlein neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=105000805	✔	✔	✔	✘
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Bondiau Bonws Plant	Di-dreth, a gall unrhyw un 16 oed a throsodd fuddsoddi. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=95800971&mediaId=19900196	✔	✘	P	✘
Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Swyddfa'r Post	Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Swyddfa'r Post wedi'i gynllunio i wneud y gorau o'r talebau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gwerth £250 drwy fuddsoddi mewn cyfranddaliadau. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=19400175	✔	✘	✘	✘
ISA Arian Cyfradd Sefydlog Swyddfa'r Post	Cyfrif talu i mewn tymor penodol, cyfradd benodol. Yn cynnig cyfnod o un, dwy neu dair blynedd. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen neu drwy'r post. Gellir gwneud taliadau yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=19300232&mediaId=105600780	✔	✘	P	✘
Bond Twf Swyddfa'r Post	Cyfraddau llog sefydlog, dim taliadau am godi arian, di-dreth, a mynediad rhwydd. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen neu drwy'r post. Gellir gwneud taliadau yn unrhyw gangen neu drwy'r post. Gellir codi arian drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=19300235	✔	✔	✔	✘
Bond Cyfalaf Gwarantedig Swyddfa'r Post	Cynnyrch strwythuredig yn cynnig cyfnod rhwng tair a phum mlynedd gyda chyfraddau llog sefydlog. Gwarentir cyfalaf a thelir adenillion ar aeddfedu. Enillion yn ddibynnol ar berfformiad mynegai 100 cwmni'r FTSE. Ar gael mewn canghennau penodol. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=96800761	C	✘	P	✘
Bond Cyfalaf Gwarantedig Swyddfa'r Post – ISA Arian	Pob gwobr yn ddi-dreth, dwy brif wobr £1 miliwn, a gall unrhyw un 16 oed a throsodd fuddsoddi. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen, dros y ffôn, arlein neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=105000805	C	✘	P	✘
ISA Buddsoddi Swyddfa'r Post	Di-dreth, gall unrhyw un 16 oed a throsodd fuddsoddi. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300232&mediaId=82300737	✔	✘	P	✘
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog	Di-dreth, llog sefydlog gydag enillion gwarantedig. Gall unrhyw un saith oed a throsodd fuddsoddi. Ymgeisiwch yn unrhyw gangen, drwy'r post, dros y ffôn neu arlein. Gellir gwneud taliadau yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=95800883&mediaId=72300721	✔	✔	✔	✘

Gwasanaeth	Disgrifiad gwasanaeth	Argaeledd			
		Cangen	Canolfan alwadau	Y We	Peiriant ATM
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol – Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol	Cynnyrch di-dreth llog sefydlog. Gall unrhyw un saith oed a throsodd fuddsoddi. Ymgeisiwch mewn unrhyw gangen, drwy'r post, dros y ffôn neu arlein. Gellir gwneud taliadau yn unrhyw gangen neu drwy'r post. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=95800883&mediaId=72200721	✔	✔	✔	✘
Stampiau Cynilo	I'w defnyddio yn erbyn taliadau biliau, trafodion Swyddfa'r Post neu fel anrhegion. I'w prynu a'u defnyddio ym mhob cangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=94800755&mediaId=19400174	✔	✘	✘	✘
Clwb Nadolig	I gynilo tuag at Dalebau Rhoddion Swyddfa'r Post neu eu defnyddio mewn siopau penodol. Mae gofyn i gwsmeriaid gwblhau ffurflen gais syml, a'i chyflwyno i'r gangen gyda swm cychwynnol (lleiafswm £5). Gall cwsmeriaid dalu i mewn i'r cyfrif hwn yn unrhyw gangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=94800755&mediaId=68000708	✔	✘	Argraffu a chyflwyno i'r gangen	✘
Yswiriant					
Yswiriant car	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300223&mediaId=19300227	C	✔	✔	✘
Yswiriant Cartref	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300223&mediaId=19300229	C	✔	✔	✘
Yswiriant Fan	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300223&mediaId=43100688	C	✔	✔	✘
Yswiriant Beic Modur	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300223&mediaId=72900709	C	✔	✔	✘
Yswiriant Anifeiliaid Anwes	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau dros y ffôn ac arlein yn unig. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19300223&mediaId=67800708	Taflenni yn unig	✔	✔	✘
Yswiriant bywyd dros 50	Derbynnir ceisiadau ym mhob cangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=95400765&mediaId=58700696	✔	✔	✔	✘
Yswiriant Bywyd	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=95400765&mediaId=61000695	C	✔	✔	✘
Yswiriant Busnes	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump1?catId=98200761&mediaId=107500769	Polisïau Cyfyngedig	✔	Polisïau Cyfyngedig	✘

Gwasanaeth	Disgrifiad gwasanaeth	Argaeledd			
		Cangen	Canolfan alwadau	Y We	Peiriant ATM
Cynnyrch Teithio Ariannol					
Bureau de Change	Ystod eang o arian di-gomisiwn a sieciau teithio American Express. Mae 1,655 o ganghennau yn cynnig ystod o arian parod ar alwad. Mae 2,624 cangen arall yn cynnig Euros a Doleri ar alwad. Mae 4,480 arall yn cynnig Euros ar alwad. Gellir archebu arian parod i'w casglu mewn unrhyw gangen. Ar gyfer canghennau lle nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael, gall cwsmeriaid archebu dros y ffôn neu arlein a bydd yn cael ei anfon at eu Swyddfa Bost leol neu eu cyfeiriad cartref. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=19300207&mediaId=19300210&intcampaignid=PI0364	C	✔	✔	✘
Cerdyn arian teithio	Ffordd o fynd ag arian dramor yn hytrach na sieciau teithio. Gellir llwytho'r cerdyn rhwng £50 a £2,500 yn unrhyw gangen. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/content1?catId=19300207&mediaId=26800661	✔	✔	✔	✔
Morgeisi, Credyd a Benthyciadau					
Cerdyn Credyd	Mae ystod o gardiau credyd Swyddfa'r Post ar gael. Mae gwybodaeth ar gael ym mhob cangen, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19400177&mediaId=34100665	C	✔	✔	✔
Morgeisi	Gwybodaeth ar gael mewn canghennau, ond derbynnir ceisiadau mewn canghennau penodol yn unig, dros y ffôn ac arlein. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump1?catId=19300206&mediaId=86600737	C	✔	✔	✘
Benthyciadau Personol	Ar gael arlein yn unig. http://www.postoffice.co.uk/portal/po/jump2?catId=19400177&mediaId=19400178	✘	✘	✔	✘

Cyfrifon Cyfredol Personol				
Banc	**Codi Arian** (gyda cherdyn a PIN)	**Ymholiad Balans** (gyda cherdyn a PIN)	**Talu arian i mewn** (gyda cherdyn neu slip talu i mewn personol o'ch banc)	**Talu sieciau i mewn** (gyda slip talu i mewn personol ac amlen talu i mewn o'ch banc)
Alliance & Leicester	Iawn	Iawn	Iawn††	Iawn
Bank of Ireland	Iawn	Iawn	Iawn	Iawn
Bank of Scotland	Iawn	Iawn	Na	Na
Barclays – yng Nghymru a Lloegr	Iawn†	Na	Iawn†††	Iawn
cahoot	Iawn (gyda llyfr siec a cherdyn)	Na	Iawn†††	Iawn
Clydesdale Bank	Iawn	Iawn	Iawn	Iawn
Halifax	Iawn	Iawn	Na	Na
Lloyds TSB – yng Nghymru, Lloegr a'r Alban	Iawn†	Iawn	Iawn†††	Iawn
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	Iawn	Iawn	Na	Na
Northern Bank	Iawn	Iawn	Na	Na
smile	Iawn	Iawn	Iawn††	Iawn
The Co-operative Bank	Iawn	Iawn	Iawn††	Iawn
Cyfrifon Banc Sylfaenol				
Abbey – Cyfrif Sylfaenol	Iawn	Iawn	Na	Na
Alliance & Leicester – Cyfrif Arian Sylfaenol	Iawn	Iawn	Iawn††	Iawn
Bank of Ireland – Cyfrif Arian Sylfaenol	Iawn	Iawn	Iawn	Iawn
Bank of Scotland – Easycash	Iawn	Iawn	Na	Na
Barclays – Cyfrif Cerdyn Arian	Iawn	Na	Na	Na
Clydesdale Bank – Cyfrif Readycash	Iawn	Iawn	Iawn	Iawn
First Trust Bank – Cyfrif Banc Sylfaenol	Iawn	Iawn	Na	Na
Halifax – Easycash	Iawn	Iawn	Na	Na
HSBC – Cyfrif Banc Sylfaenol	Iawn	Na	Na	Na
Lloyds TSB – Cyfrif Arian	Iawn	Iawn	Iawn†††	Iawn
Cymdeithas Adeiladu Nationwide – FlexAccount (cerdyn arian yn unig)	Iawn	Iawn	Na	Na
NatWest – Cyfrif Step	Iawn	Iawn	Na	Na
Northern Bank	Iawn	Iawn	Na	Na
The Co-operative Bank – Cashminder	Iawn	Iawn	Iawn††	Iawn
The Royal Bank of Scotland – Key Account	Iawn	Iawn	Na	Na
Ulster Bank – Cyfrif Banc Sylfaenol	Iawn	Iawn	Na	Na
Yorkshire Bank	Iawn	Iawn	Na	Na

† Gallwch hefyd godi arian o'ch cyfrif cyfredol personol drwy ddefnyddio eich llyfr siec a cherdyn. Mae cerdyn a PIN yn gynt, haws ac yn fwy diogel.
†† Gyda cherdyn yn unig.
††† Gyda slip talu i mewn personol o'ch banc.

Atodiad B: Rhestr o gwestiynau ymgynghoriad

- Cwestiwn 1 – Beth ydych chi yn ei werthfawrogi am wasanaethau ariannol, bancio a thaliadau cyfredol Swyddfa'r Post, a pa ffactorau sy'n penderfynu a ydych yn eu defnyddio?
- Cwestiwn 2 – A yw'r cynnyrch neu wasanaethau a gynigir gan Fanciau Post ledled y byd yn darparu unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygiad gwasanaethau bancio neu ariannol yn Swyddfa'r Post yn y DU?
- Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno mai dyma'r gwerthoedd cywir ar gyfer bancio gyda Swyddfa'r Post, h.y. cyffredinol, hygyrch, dibynadwy a chynaliadwy?
- Cwestiwn 4 – A ydych yn credu mai dyma'r meysydd a'r cynnyrch cywir i ganolbwyntio arnynt?
- Cwestiwn 5 – Pa wasanaethau ariannol newydd yr hoffech eu gweld ar gael yn eich Swyddfa Bost leol?
- Cwestiwn 6 – Mae'r Llywodraeth eisoes yn cynnig ac yn cefnogi gwasanaethau credyd sylweddol ar gyfer pobl ar incwm isel, megis benthyciadau Cronfa Gymdeithasol ac undebau credyd; pa wasanaethau eraill fedrai Swyddfa'r Post eu cynnig i gefnogi'r rhai ar incwm isel ac i wynebu eithriad ariannol, a beth fyddai'r ffordd orau i wneud iddynt gydweithio?

Atodiad C:
Ffurflen Ymateb Ymgynghoriad

Gallwch hefyd ymateb i'r ymgynghoriad hwn arlein neu lwytho fersiwn electronig o'r ffurflen hon i lawr o www.bis.gov.uk/postofficebanking a'i anfon ar ebost at postofficebanking@bis.gsi.gov.uk.

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, gyhoeddi ymatebion unigol, yn dilyn galwad o'r cyhoedd.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 24/02/2010.

Eich enw:

Eich mudiad
(os yn berthnasol):

Eich cyfeiriad:

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio'ch mudiad orau (os yn berthnasol):

- ☐ Mudiad/corff masnachol sy'n cynrychioli busnes
- ☐ Llywodraeth Ganolog
- ☐ Elusen neu fenter gymdeithasol
- ☐ Unigol
- ☐ Busnes mawr (dros 250 o staff)
- ☐ Cynrychiolaeth gyfreithiol
- ☐ Llywodraeth Leol
- ☐ Busnes canolig (50 i 250 o staff)
- ☐ Micro fusnes (hyd at 9 o staff)
- ☐ Busnes bach (10 i 49 o staff)
- ☐ Undeb llafur neu fudiad staff

☐ Arall (disgrifiwch):

Diolch am roi'ch amser i rannu eich barn gyda ni. Nid ydym yn bwriadu cydnabod derbyn ymatebion unigol oni bai eich bod yn rhoi tic yn y blwch isod.

☐ A wnewch chi gydnabod derbyn yr ymateb hwn os gwelwch yn dda.

Mae BIS yn cynnal ymchwil ar nifer o wahanol bynciau ac ymgynghoriadau. Gan fod eich barn yn werthfawr i ni, rhowch dic yn y blwch os ydych yn barod i ni gysylltu â chi yn y dyfodol, naill ai ar gyfer ymchwil neu gyda dogfennau ymgynghorol.

☐ Iawn ☐ Na

Cwestiwn 1 – Beth ydych chi yn ei werthfawrogi am wasanaethau ariannol, bancio a thaliadau cyfredol Swyddfa'r Post, a pa ffactorau sy'n penderfynu a ydych yn eu defnyddio?

Cwestiwn 2 – A yw'r cynnyrch neu wasanaethau a gynigir gan Fanciau Post Iedled y byd yn darparu unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygiad gwasanaethau bancio neu ariannol yn Swyddfa'r Post yn y DU?

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno mai dyma'r gwerthoedd cywir ar gyfer bancio gyda Swyddfa'r Post, h.y. cyffredinol, hygyrch, dibynadwy a chynaliadwy?

Cwestiwn 4 – A ydych yn credu mai dyma'r meysydd a'r cynnyrch cywir i ganolbwyntio arnynt?

Cwestiwn 5 – Pa wasanaethau ariannol newydd yr hoffech eu gweld ar gael yn eich Swyddfa Bost leol?

Cwestiwn 6 – Mae'r Llywodraeth eisoes yn cynnig ac yn cefnogi gwasanaethau credyd sylweddol ar gyfer pobl ar incwm isel, megis benthyciadau Cronfa Gymdeithasol ac undebau credyd; pa wasanaethau eraill fedrai Swyddfa'r Post eu cynnig i gefnogi'r rhai ar incwm isel ac i wynebu eithriad ariannol, a beth fyddai'r ffordd orau i wneud iddynt gydweithio?

Parhewch ar daflen arall os oes angen, a dychwelwch y ffurflenni at:

Ymgynghoriad Bancio yn Swyddfa'r Post
Gweithrediaeth Cyfranddalwyr
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
1 Stryd Victoria
Llundain
SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000
Ffacs: 020 7215 5336
Ebost: postofficebanking@bis.gsi.gov.uk

Atodiad D: Rhestr o fudiadau sy'n derbyn yr ymgynghoriad hwn

Action with Communities in Rural England
Age Concern/Help the Aged Lloegr
Age Concern and Help the Aged yn yr Alban
Age Concern Cymru/Help the Aged yng Nghymru
Age Concern Help the Aged Gogledd Iwerddon
Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Swyddfeydd Post
Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Dlodi
Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Wasanaethau Gwledig
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)
Cymdeithas Undebau Credyd Prydain
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Gogledd Iwerddon
Ymgyrch Diogelu yr Alban Wledig
Cymdeithas Bancwyr Prydain
Siambr Masnach Prydain
British Pensioners and Trade Unions Action Association
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
Busnes yn y Gymuned
Pwyllgor Busnes Arloesedd a Sgiliau
Campaign for Community Banking Services
Campaign for the Protection of the Countryside Northern Ireland
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig
CBI
CBI Cymru
CBI Gogledd Iwerddon
CBI yr Alban
Canolfan Amgylchedd a Materion Gwledig
Siambr Cymru
Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Cyngor Ar Bopeth
Cyngor Ar Bopeth Gogledd Iwerddon
Cyngor Ar Bopeth yr Alban
Cyngor Ar Bopeth Cymru

Comisiwn Cymunedau Gwledig
Committee of Scottish Clearing Banks
Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu
Community Development Finance Association
Comisiwn Cystadleuaeth
Llais Defnyddwyr
Llais Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
Llais Defnyddwyr yr Alban
Llais Defnyddwyr Cymru
Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban
Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Cyngor Diogelu Lloegr Wledig
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Anabledd Cymru
Enterprise UK (Cymdeithas Gwasanaethau Manwerthiant Pentrefi)
Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Family Action
Cymdeithas Fawcett
Ffederasiwn Busnesau Bychain
Fforwm Busnesau Preifat
Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd
Cymdeithas Joseph Rowntree
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Mencap
Mind
Money Advice Trust
Money Liaison Scotland
Undeb y Mamau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol
NCH (National Care Homes)
Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
Ffederasiwn Cenedlaethol Is-Bostfeistri
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
Confensiwn Cenedlaethol Pensiynwyr
Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
new economics foundation
Cynulliad Gogledd Iwerddon
Siambr Masnach a Diwydiant Gogledd Iwerddon
Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
Swyddfa Cydraddoldeb

Swyddfa Masnachu Teg
Swyddfa Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon
One Parent Families
Cynghorau Plwyf a Chymdeithasau Trigolion
Payment Council
Plunkett Foundation
Policis
Post Bank Coalition
Postcomm
RADAR (Royal Association for Disability and Rehabilitation)
Asiantaethau Datblygiad Rhanbarthol
Rethink
RNIB
RNID
Cymdeithas Frenhinol Hawliau'r Anabl
Lleng Brydeinig
Runnymede Trust
Cynghrair Siopau Gwledig
Cynghrair Mentrau Cymdeithasol
Scope
Siambr Fasnach yr Alban
Fforwm Anabledd yr Alban
Llywodraeth yr Alban
Shelter
Townswomen's Guild
Toynbee Hall/Transact
Cyngres yr Undebau Llafur
Unite
Canolfan Ymchwil Cyllid Personol Prifysgol Bryste
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bwrdd yr Iaith
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Which?
Comisiwn Cenedlaethol y Menywod

Atodiad E: Cod Ymarfer Ymgynghoriadau

1. Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol pan fo lle i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. Fel rheol dylai ymgynghoriad gymryd 12 wythnos o leiaf, gan ystyried amserlen hwy lle bo'n bosibl ac yn synhwyrol.
3. Dylai dogfennau ymgynghorol fod yn glir am y broses ymgynghorol, yr hyn sy'n cael ei gynnig, ystod y dylanwad a chost a buddiannau'r argymhellion.
4. Dylid cynllunio ymgynghoriad i fod yn hygyrch ac yn targedu'n eglur y bobl hynny y bwriedir i'r ymarferiad eu cyrraedd.
5. Mae'n hanfodol cadw'r baich ymgynghorol cyn lleied â phosib er mwyn i'r ymgynghori fod yn effeithiol, ac i ymgyngoreion gytuno i ymwneud â'r broses.
6. Dylid dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, a rhoi adborth clir i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.
7. Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau dderbyn arweiniad ar sut i gynnal ymarferiad ymgynghorol llwyddiannus, a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r profiad.

Sylwadau neu gwynion

Os ydych yn dymuno gwneud sylw ar yr ymgynghoriad hwn neu gwyno am y ffordd y cafodd ei gynnal, ysgrifennwch at:

Tunde Idowu
Cydlynydd Ymgynghoriad BIS
1 Stryd Victoria
Llundain
SW1H 0ET

Ffoniwch Tunde ar 020 7215 0412 neu anfonwch e-bost at:
Babatunde.Idowu@bis.gsi.gov.uk

Printed in the UK on recycled paper containing a minimum of 75% post consumer waste.
Department for Business, Innovation & Skills. www.bis.gov.uk
First published December 2009. 0.5k/12/09NP © Crown copyright. URN 09/1483